| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 09/02/2026 |
| **Teitl:** | Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2025/26 |
| **Pwrpas:** | Derbyn adborth gan y Bwrdd er mwyn cwblhau'r arolwg |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Rheolydd Pensiynau wedi cyhoeddi arolwg y mae'n ofynnol i bob rheolwr cynllun lleol ei gwblhau ar gyfer y gronfa bensiwn y maent yn ei gweinyddu. Cyngor Gwynedd yw'r rheolwr cynllun lleol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, ac felly mae ganddo'r cyfrifoldeb statudol i gwblhau'r arolwg.

Yn unol â gofynion y Rheolydd Pensiynau, dylid cwblhau'r arolwg gan Reolwr y Cynllun ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd Pensiwn. Yn y gorffennol, mae'r Bwrdd wedi cytuno mai'r dull mwyaf priodol o baratoi'r ymateb yw i'r Bwrdd gyfan adolygu cynnwys yr arolwg, trafod yr ymatebion arfaethedig, ac yna cytuno ar y fersiwn derfynol cyn ei chyflwyno. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r arolwg yw 13 Chwefror 2026.

## 2. YR AROLWG

Mae copi o'r arolwg ynghlwm fel Atodiad A. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau'n cael eu hystyried yn y cyfarfod hwn. Ar ôl y drafodaeth, cytunir ar y fersiwn derfynol gyda'r Cadeirydd cyn ei chyflwyno i'r Rheolydd Pensiynau.

Er mwyn hwyluso cwblhau'r arolwg, mae cwestiynau ffeithiol a sylwadau cychwynnol gan y Rheolwr Pensiynau wedi'u marcio yn Atodiad A. Mae'r rhain yn sail i'r drafodaeth, ac mae'r Bwrdd yn cael cyfle i gynnig newidiadau neu welliannau cyn cytuno ar yr ymateb terfynol.